# "PEIDIWCH A'U GWRANDO,"

Yw testun mwyaf poblogaidd pregethwyr ein gwlad ni yn awr, debygwn, yr hyn a'n cymhell ninnau i adolygu eu pregethau arno, fel y canlyn:—

I. *Pwy sydd yn gorchymyn.* II. *Pwy a orchymynir.* III. *Yr hyn a orchymynir.* IV. *Paham y gorchymynir felly.* V. *Y canlyniadau* o orchymyn hyn, ac o ufyddhau.

I. Pwy sydd yn gorchymyn i beidio gwrando? Atebwn, fod yr athrawiaeth hon yn cael ei phregethu o bwlpudau pob sect a broffesant grefydd yn Nghymru, yn ol a ddeallwn; ni wyddus am eithriad yn mhlith y Pabyddion, yr Eglwys sefydledig, nac yn mhlith eu hamrywiol eppil. Cyhoeddir hi gan eu hawduron a'u Golygyddion, eu diaconiaid ac athrawon eu hysgolion Sul-iol, eu haelodau ac ymwelwyr â thaiach gwrageddos eu cydnabod. Yn enwedig yn eu cyfeillachau eglwysig, clywir mynych orchymyn "Peidiwch a'u gwrando." A hwy cyduna y byd dibroffes, meddwon, cablwyr, anffyddwyr, a'r cyffredinolrwydd o'n cyd-genedl, gydag eithriadau parchus o bersonau unigol a geir rhy synwyrgall i hyny, mae yr oll yn cyd-floeddio yn fonllef fawr "Pediwch a'u gwrando" am ryw rai! Yr hyn a brawf fod y rhai y gwaharddir eu gwrando o dylwyth, barn, chwaeth, ac ysbryd gwahanol i'r oll o'r pleidiau *undebol* a'u gwrthwynebant! Tra y mae cydgordiad yr oll o honynt yn y *Chorus* o "Peidiwch a'u gwrando," yn eu profi hwy oll o'r un chwaeth ac undeb calon, serch mai hyn yw'r unig *gorus* braidd a gyd-ganant. Felly, cân boblogaidd yw "Peidiwch a'u gwrando," gwelir.

II. Pwy a orchymynir,—atebwn mai y rhai a broffesant fod yn ddynion, yn feddiannol ar synwyrau, a dynion a gawsant yr oruchel fraint gan eu Creawdwr o *farnu drostynt eu hunain!* ïe, dynion a feddant eneidiau anfarwol, dynion sydd raid iddynt farw drostynt eu hunain, a sefyll o flaen brawdle i gael eu barnu am eu barn eu hunain, ac nid am farn arall; pobl ag y mae pob un o honynt yn fwy gwerth nâ'r byd a'i holl drysorau, a orchymynir gan eu cyd-ddyn i "beidio *gwrando*" ar arall! Pa gaethiwed gwaeth nâ hyn? A oes yn bosibl rhoddi mwy o sarhâd ar synwyr cyffredin na hyn? Beth ond cymmeryd eu

Ven 17
P
M 230
374 FWel
1854?



barn oddiarnynt yw hyn? Gwahardda cyfreithiau gwledydd weithredu y cyfryw bethau, gwahardda Louis Napoleon a'r Chwilys Pabaidd i ddynion gyhoeddi eu barnau, gwahardda caeth-fasnachwyr yr India Orllewinol i'r Negroaid lefaru eu teimladau, eithr rhaid i ni ddyfod i "Gymru oleu," ac i "wlad y Beiblau" i gael ein hamddyfadu o ddefnyddio ein clustiau! Yn "ngardd Cristionogaeth," a "magwrfa rhyddid" yn unig o holl drais-fanau byd y gwaharddir dynion i feddwl! canys i ba ddyben gwrando ond er meddwl, gan mai er cyflwyno sŵn i ddylanwadu ar y meddwl y mae y glust; priodol yw dweyd fod y "Brytaniaid rhydd," ïe, yn nes etto, fod y "*Cymry* anymddibynol," fel yr ymffrostir, yn druenusach caethion, neu fod eu pregethwyr wrth bregethu iddynt "*Peidiwch a'u gwrando*" yn amcanu eu darostwng yn gaethach caethion nag yw Negroaid Cuba na Serre Leon! Nid oes yn anghen ond *gallu* er cospi â phoenydion y Chwil-lys ar y rhai a ddiarddelant eu haelodau am wrando ereill; eu gwaethaf a wnaethant wrth hyny!

Gymro mwyn, paid mwyach a gadael i'r fath ormeswyr dy ddarostwng i'r fath eithafion a'th amddifadu o'r rhydd-ewyllys werthfawr a roddodd dy Greawdwr yn enedigaeth-fraint i ti, o leiaf hyd nes y gallant fairw ac ateb drosot yn y farn, neu brofi eu bod hwy yn anffaeledig eu hunain.

III. Yr hyn a orchymynant. "*Peidiwch a gwrando* ar ddim a ddywed y Mormoniaid, sef Saint y Dyddiau Diweddaf," yw yr anthem boblogaidd; nid peidiwch a gwrando ar gablwyr, baledwyr, masweddwyr, swyngyfareddwyr, camp chwareuwyr, nac ar groes bleidwyr croes bleidiau haerllug y wlad. O, na, gellwch wrando ar bawb a phob peth ond ar y 'Seintiau,' meddant. Beth mor ddrwg a ddywed y 'Seintiau' ynte? Oni annogant eu gwrandawwyr i gredu yn Iesu Grist? Sicr iawn, a gwnant eu goreu i ufyddhau i'w holl orchymynion Ef eu hunain, a dysgant ereill i wneuthur hyny. Ni ellir gwadu hyn. Mae hyn yn dda ynddynt hwy os da yn eu herlidwyr, felly *dylid* eu gwrando. Annogant bawb i edifarhau am eu pechodau, eu gadael, a byw yn gyfiawn, gonest, cymmydogol, a duwiol. Paham gwahardd eu gwrando, ynte, gan y rhai a broffesant fod mawr anghen dysgu hyn i'r byd? Dysgant hefyd mai y ffordd i gael maddeuant pechodau yw drwy gael eu bedyddio "ER MADDEUANT pechodau," fel y dysgodd Pedr

a'i frodyr oll, a'u Harglwydd o'u blaen. Os da gwrando arnynt hwy, da hefyd yw gwrando ar y Saint yn dysgu yr un peth; ac felly, *drwg* yw gwahardd iddynt wrando ar hyny, nad pwy a'i gwna. Dysga y Saint hefyd fod doniau yr Ysbryd Glân i'w cael yn awr, ac ar yr un ammodau ag yn nyddiau Crist a'r apostolion; fod Ysbryd Duw i'w gael i gyd-dystio â'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw; ac o herwydd eu bod yn llawen *fwynhau* gwahanol ddoniau yr efengyl eu hunain y tystiant wrth eu gwrandawyr, o gariad atynt, ac o awydd iddynt hwythau fwynhau y cyffelyb. Pa fath a raid fod y dynion a waharddant i wrando crefydd fel hon, barned y darllenydd! Oni waharddasent i wrando ar Pedr, Paul, ïe, Crist ei hun yn pregethu yr un pethau pe buasent yn cyd-oesi â hwynt? Diddadl y gwnaethent.

Tystia y Saint eu bod mewn gwirionedd wedi derbyn cenadwri ddwyfol drwy weinidogaeth angylaidd, yr hon a gynnwysa adferiad yr efengyl dragywyddol yn nghyflawnder ei bendithion; oes, y mae miloedd o honynt yn tystio eu bod yn gwybod mai *gwir* yw hyn; ac er hyn oll ceir dynion a broffesant 'bregethu yr efengyl' yn gwahardd eu hudoledigion i ddyfod i wrando cenadwri Duw o'r nef atynt! Oes, y mae dosparth o bobl yn merwino clustiau yr oes â chwedlau dan rith broffes o grefydda, y rhai ni ddeuant i mewn i deyrnas Dduw eu hunain, ac ni adawant i ereill a ddymunant ddyfod; eithr a efelychant yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid rhagrithiol a fwgythid gan yr Iesu, mor llym. Er syndod i'r byd, ceir y rhai a broffesant fwyaf o sêl i ddysgu meddwl a gair Duw i'r werin, y parotaf a'r uwchaf eu llais yn gwaeddi "Peidiwch a gwrando" y genadwri bwysig a anfonodd Duw atynt! ! Maent yn hollol groes i'r Prophwyd a ddywedodd "Pan lefaro yr Arglwydd o'r nef, gwrandawed holl breswylwyr y ddaear." Gwaeddasai y rhai hyn yn ei wyneb, Ow, na, twyllwr yw, "Peidiwch a'i wrando," debygir. Dengys yr ysgrythyrau na anfonodd Duw genadwri i'r byd erioed ar nad oedd yn gofyn gwrandawiad y byd arni, ac ni achwynai holl weision Duw drwy'r oesoedd gymmaint yn erbyn dim ag yn erbyn diystyrwch pregethwyr yr athrawiaeth andwyol o "*Peidiwch a'u gwrando.*" Nid oes hanes am was i Dduw o Adda hyd yr olaf a anfonodd yn pregethu yr athrawiaeth hon, ond hollol groes,—"*Profwch bob peth, a deliwch yr*

*hyn sydd dda.*" Chwiliwch, gwrandewch, a defnyddiwch eich clustiau a'ch synwyrau, oedd gorchymyn Duw i bob oes ag yr anfonodd air atynt. Felly addef mai gweision y Duw hwnw yw y rhai sydd yn gwaeddi "*Peidiwch a gwrando*" yr hyn a broffesa fod yn llais Duw atynt, yw cyfaddef gwyrth, os peth digyffelyb yw gwyrth, yn ol y deongliad poblogaidd o'r gair.

Mae y Saint yn credu yr ysgrythyrau yn gywir ac yn drwyadl fel y maent, o ganlyniad, dweyd "*Peidiwch a'u gwrando*" hwynt yw dweyd "*Peidiwch a gwrando* yr ysgrythyrau, eithr gwrandewch ar esboniadau gwadwyr yr ysgrythyrau." Hollol annuwiol yw gwaeddi "Peidiwch a gwrando" yr hyn a broffesa ddyfod oddiwrth Dduw; nid yw eu crediniaeth hwy mai twyll yw yn esgusodi dim arnynt, pe baent mor gydwybodol ag yr oedd Paul yn herlid yr un fath genadwri, canys dylasent "wrando" yn onest eu hunain, a'i phrofi, a mynu *gwybod*, nid *tybied*, ai gwir ai twyll yw. Ni esgusodir hwy chwaith o herwydd fod chwedlau dirif yn camgyhuddo y Saint, mwy nag yr esgusodai Crist ei erlidwyr o herwydd iddynt gredu y gau ddysgawdwyr hyny yn haeru mai dyn drwg oedd Efe, pan y cawsent gyfle i ddeall gwell.

Mewn gair, mae y Saint yn dysgu eu gwrandawwyr i gredu pob athrawiaeth, i ufyddhau i bob gorchymyn, ordinhad a dyledswydd a ddysgodd Crist a'r apostolion, ac yn rhoddi eu hufyddion ar y ffordd i fwynhau cyflawniad o'r holl addewidion iddynt eu hunain, ac yn eu hannog i ymsanteiddio yn mhob gweithred dda; ni ellir gwadu hyn, o ganlyniad, rhaid fod y rhai a ddywedant "*Peidiwch a'u gwrando*," yn ceisio rhwystro i wneyd hyn oll, drwy egnïo i'w herbyn; yr hyn a'u prawf yn elynion Duw a dynion, a phob daioni a ddysga y Saint, ac fel ei elynion y tâl Awdwr Mawr y genadwri ddwyfol a ddiystyrasant, iddynt yn nydd y cyfrif. os nad edifarhant.

IV. Paham y gorchymynant, "Peidiwch a'u gwrando?" Pe caniateid eu hatebiad hwy eu hunain, parod yw, sef, "O herwydd mai y twyllwyr mwyaf peryglus yn y wlad ydynt hwy," meddant. Cyfaddefwn eu bod yn fwyaf peryglus o bawb i ddynoethi twyll crefftau ac hudoliaeth yr wbanwyr brawychus hyn: peryglaf o bawb i chwedleuwyr enllibaidd ag ydynt yn ennill eu byd da ar gost hudo eneidiau anfarwol i dywyllwch y fagddu, a'u cadw yno fel y gallant hwy wledda ar eu moethau

a'u danteithion! Gwir a ddywedant am un peth o leiaf, y maent yn beryglus iddynt hwy fel y mae pob gwirionedd yn beryglus i dwyll a rhagrith.

O, ïe, bid siwr, hwy yw bugeiliaid y praidd, ac ar eu hysgwyddau hwynt y gorphwys y baich o achub eneidiau, debygid wrth eu hir-ruddiau yn ffug-alaru dros bechadrusrwydd yr oes! Hawyr! pwy a roddes fugeiliaeth iddynt? Nid y Bugail dwyfol y cyfaddefant na lefarodd air wrthynt, ac y gwaharddant i ereill i "beidio a gwrando" ei genadwri atynt, bid siwr!! Pwy a ofynodd hyn oddiar eu llaw? Ddarllenydd, na thwyller di gan y fath ffug; chwilia i fôn y blew, neu i'r dannedd, ac os adwaenost "flaidd" ni'th dwyllir yn hwy!

Eithr paham y gorchymyna y bobl hyn i "beidio a gwrando" ar y Saint? Un achos yw, gwadant os gallant, o herwydd fod gwirioneddau y Saint yn tra ragori ar eu chwedlau hwy—bod y Saint yn addaw yn rhâd y bendithion a wadant hwy; ac ofnant i'r werin ganfod y gwelliadau a allent wneuthur pe cyfnewidient eu lle; ac felly y collent hwythau eu bywioliaeth a'u parch, ac na allent borthi eu balchder; gweithio nis gallant, a chardota sydd gywilydd ganddynt, ac o ganlyniad, traethant bob math o chwedlau anwireddus am y Saint a'u crefydd, er eu bychanu, eu gwneyd yn anmhoblogaidd, ac yn rhy warthus i'w gwrando; ac hefyd ofnant, pe yr elent i wrando y clywent bob peth braidd mor groes i'w camgyhuddiadau hwy, fel y delid hwy yn y fan yn eu noddfau celwydd, ac y delai arnynt y cywilydd a ofnant yn y ffordd hono; a chan iddynt ddechreu camgyhuddo, rhaid dilyn yn mlaen a gwaeddi "PEIDIWCH A'U GWRANDO, onite myfi a'ch ysgymunaf," &c.

Achos arall paham y gwaharddа rhai i wrando yw, o herwydd eu bod mor benwan a chwanog i gredu enllib, neu goelio yr ystoriau a glywsent, a chredu mai twyllwyr yw y Saint; eithr druain o'r chwedleuwyr yna, os nad ydynt wedi eu hargyhoeddi o'r drwg o hyny erbyn hyn, ofnwn mai ofer ymdrafferthu gyda hwynt. Achos arall gyda llawer yw, pa un a wyddant hwy eu hunain hyny ai peidio, mae yn amlwg i lygad agored mai dylanwad gau ysbrydion, rhith grefyddol, croes wirioneddol, a dinystriol yw; o ba rai y mae ein gwlad yn llawn braidd o bob math, dichell a chyfrwysdra i gael y byd i wrando pawb ond yn unig y rhai a orchymyna Duw eu gwran-

ddo. Digiant neu beidiant, a digied eu mheistr, mae efe a ninnau, a'r nefoedd hefyd yn gwybod mai gwirionedd rhy anhawdd ei wrthbrofi yw hyn. Gelyniaeth calon at wirioneddau dwyfol a'i hachosa serch hyny.

V. Y canlyniadau o orchymyn ac o ufyddhau i hyny. Mae y ffaith o ddwyfoldeb cenadwri y Saint, yn profi ei phwysigrwydd; mae y ffaith fod bywyd tragywyddol pawb yn ymddibynu ar wrando ac ufyddhau i bob cenadwri flaenorol a anfonodd Duw i'r byd, yn rhesymeg gyffelybiaethol i brofi fod bywydau yr oes yn ymddibynu ar wrando ar ac ufyddhau i'r genadwri hon; ac y mae y ffaith hanesyddol fod Duw wedi dinystrio pob oes flaenorol a ddiystyrasant ei genadwri atynt yn rhesymeg gref i brofi mai cyffelyb fydd tynghed diystyrwyr y genadwri hon. Eithr y mae genym eglurach profion o hyny na hyna; oes, y mae genym air pendant ei digelwyddog Awdwr hi, mai cosp lem a dinystr a ddaw ar ei gwrthodwyr hi. Dywedodd Mab Duw, "Yr hwn sydd yn eich gwrando chwi [fy anfonedigion i] sydd yn fy ngwrando i, a'r neb sydd yn eich dirmygu chwi sydd yn fy nirmygu i." Felly yn awr yn gymhwys. Dywedodd mai "yr hwn a droseddo un o'r gorchymynion lleiaf hyn, ac a ddysgo i ereill felly, lleiaf y gelwir Ef yn nheyrnas nefoedd;" a dyweddodd hefyd, "Gwell fuasai rhwymo maen melin oddiamgylch ei wddf a'i suddo yn eigion y mor nag iddo rwystro un o'r rhai lleiaf hyn." Arswyder rhag y canlyniad o waeddi " *Peidiwch a gwrando*," ynte.

Hollol groes i hyn oedd cynghor Paul, sef, "Profwch bob peth, a deliwch yr hyn hyn sydd dda," ïe, yn dda, hyd y nod mewn Mormoniaeth. Amlwg yw nad oedd Paul yn perthyn i'r eglwysi erlidgar hyn. "Peidiwch a'u gwrando," aïe, Syrs, h. y., rhag ofn y gwelant eich dichell chwi i'w cadw mewn tywyllwch. Gwyddech pe deuent i glywed y ddwy ochor, yr amlygid eich camgyhuddiadau chwi, ac y deuech i'r gwarth a deilynga y cyfryw ymosodwyr diachos. Y mae eu crefftau hwynt wedi eu sylfaenu ar "BEIDIO GWRANDO" yr ochr arall; a chyn gynted ag y daw rhai o'u hudoledigion i chwilio yn ddiduedd, argyhoeddir hwynt o'u twyll. Ystyriai pawb rhesymol mai *insult* idd eu synwyrau hwynt yw rhoddi y fath gynghor. Ai hwy yw dewiswyr crefydd i'w cyd-ddynion? Ai wrth eu *hipse dixit* hwy y bernir dynion rhesymol? Os nadê, paham

nad ydynt mor addas i farnu drostynt eu hunain ag ydynt hwythau? Arwydd eglur o dwyllwr gwybodus yw gwaeddi "Peidiwch a'u gwrando." Pregethwyd yr athrawiaeth boblogaidd yna yn mhob oes, ac uwchben pob cenadwri a anfonodd Duw i'r byd. Yr oedd rhaid fod llawer o frodyr i'r rhai hyn yn yr hen fyd, canys dysgasent bawb ond wyth i "beidio gwrando" ar Noah. Yr oedd yr athrawiaeth hon o "beidio eu gwrando" yn boblogaidd iawn ar ol y diluw hefyd, a lluoedd o broselytiaid iddi, megys eglwysi lluosog yn Admah, Tzeboim, Sodom, Gomorrah, &c. Pan rybuddid hwynt i adael eu traddodiadau andwyol ac i ddychwelyd at y gwir, danfonid haid o'r colegau i waeddi nerth eu pen, "peidiwch a'u gwrando." Heb sôn am yr eglwysi mawrion hyny oedd yn Babilon, yn Tyrus, Sidon, Jerusalem, &c., pa rai oeddynt wedi eu sylfaenu ar yr athrawiaeth o "BEIDIO GWRANDO" dim a ddywedai gweision Duw, cofus am yr un boblogaidd hono oedd yn Athen, yr hon oedd wedi dysgu yr athrawiaeth o "beidio gwrando" ar Paul. Mae yn wir fod yno ambell un fel sydd yn Nghymru ddim yn bur gadarn yn y ffydd o "beidio gwrando," ond yn dyfod i wrando drostynt eu hunain, ac yn clywed pob peth mor groes gan y Saint i gamgyhuddiadau eu herlidwyr, nes agoryd eu llygaid a chofleidio y gwir. Ond y mwyrif yn myned heibio gan ysgwyd eu penau, ac ambell un yn ysgyrnygu ei ddanedd dan ddylanwad y rhybudd o'r pwlpud i "*beidio gwrando.*" Mae blaenoriaid y sect hon yn ffyddlonach yn eu rheolau dyscyblaethol na'u cyndadau; canys gwna y rhai'n y trosedd o "beidio eu gwrando" yn bechod ysgymunedig, fel mai wedi unwaith fyned at y blaid anmhoblogaidd sy'n dweyd "profwch bob peth" mae eu pechodau yn anfaddeuol! Ni chânt byth ddyfod atynt yn ol. Gwna hyn i mi feddwl am y ceidwad carchar a fwgwthiai droi y carcharorion allan i'r byd fel cosp am ymddyddan â'u gilydd. "Peidio gwrando" arnynt oedd arwydd-air hwnw, fel y rhai hyn, tra mai y fendith fwyaf i'r caethion truenus fyddai cael eu hysgymuno o'r fath garcharau i ryddid, fel y gallont brofi pob peth a ddewisant, yn enwedig i brofi cyfundrefn a broffesa fod yn ddwyfol genadwri atynt. Felly gwelir fod yr athrawiaeth o "beidio gwrando" yn hen a phoblogaidd iawn; ac y mae y proffwydoliaethau yn arddangos y byddant mor llwyddiannus yn y dyddiau diweddaf, i gael

gan y werin "beidio a gwrando" ag yn un oes flaenorol. Megys yr oedd yn nyddiau Noah ac yn nyddiau Lot, sef "peidiwch a'u gwrando," felly y bydd yn y dyddiau cyn dyfodiad Mab y Dyn. Ac y mae yn amlwg fod eglwys fawr iawn i fod ar y ddaear yn y dyddiau diweddaf yn pregethu yr athrawiaeth o "*peidiwch a'u gwrando*," wrth y rhai y dywedir, "Yn gymmaint ag i mi alw ac i chwithau wrthod; i mi estyn fy llaw, ac nid oedd neb yn *ystyried*;" h.y. "*peidiasant a gwrando*." Ond diystyrasoch fy holl gynghor i drwy "beidio gwrando," ac ni fynech ddim o'm cerydd; a'r achos oedd am fod eu pregethwyr yn gwaeddi "peidiwch a'u gwrando." "Minnau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi; mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni."

Cwynai Moses yn dost o herwydd y pregethwyr a ddywedent wrth y bobl "Peidiwch a'u gwrando;" ac o herwydd "peidio gwrando" ar weision Duw y daeth cospedigaethau trymaf Israel. Galarai Duw trwy Dafydd o herwydd llwyddiant y grefft o "beidio gwrando," "O, na wrandawsai fy mhobl arnaf," ebe Efe. Felly Esaias yn ei ddydd, nad pa mor bwysig y genadwri a anfonai Duw. "ni fynant wrando," ebe yntau. Yr Arglwydd a gwynai drwy Jeremiah fod eu clustiau wedi myned mor hwyrdrwm "*ni allant wrando*." Pan y gosododd Efe wylwyr arnynt i'w harwain yn ei lwybrau, gan ddywedyd, "Gwrandewch ar sain yr udgorn, hwythau a ddywedasant "*ni wrandawwn ni ddim*;" yr achos oedd o herwydd i'r gau ddysgawdwyr fyth eu dysgu "Peidiwch a'u gwrando." "Gwrando di ddaear, wele fi yn dwyn drygfyd ar y bobl hyn," ebe fe, am iddynt "beidio gwrando." Methu cael clustiau eu cyd-ddynion yr oedd gweision Duw yn mhob oes, o herwydd lliosogrwydd pregethwyr yr athrawiaeth o "*beidio gwrando*." Felly y cwynai Crist a'i olynwyr, a dyma destun galar eu holynwyr hwythau, o herwydd fod pobl yn "peidio gwrando." Eithr nid felly y pery byth! O na, "yn eu mis y ceir hwynt," ac nid â yr oes hon heibio cyn y clywir gwaeddiadau miloedd yn adleisio yn nghreigiau Cymru, "O na wrandawsem ar lais ein hathrawon," yn lle merwino ein clustiau yn gwrando ar y rhai a ddywedent "'Peidiwch a'u gwrando,' eithr darfu yr hâf, aeth cynhenaf ein heneidiau heibio, ac nid ydym ninnau gadwedig" a fydd eu hochain, pan y bydd Duw wedi casglu ynghyd i ddidlosrwydd y rhai a *wrandawsent* arno, a hwythau yn cyd-ddyoddef diferion difäol cerwin ei ddigofaint Ef, am "*Beidio a gwrando*."

Pa hyd, Gymry cyfrifol, y gadewch i ddynion fel hyn dynu y llen dros eich llygaid, fel y gallont ddadfotynu eich llogellau a'ch ffangellu wedi'r cwbl, os meiddiwch roi eich barn mewn gweithrediad! Pahham sôn am gaethion duon yr America, tra y mae cynnifer o gaethion yn ein hymyl, gymmaint truenusach ag yw eu crwyn yn wynach!

---

CYHOEDDWYD AC ARGRAFFWYD GAN D. JONES, ABERTAWY.